

## Panel Ymgynghorol - Adolygiad y Flwyddyn 2018/19

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae'r papur hwn yn adolygu effeithiolrwydd a gwaith y Panel Ymgynghorol yn ystod 2018/19. Dyma'r chweched adolygiad o'r fath ers sefydlu'r Panel yn 2012. Fel gyda'r adolygiadau blynyddol o'r blynyddoedd a fu, mae'n ystyried y safbwyntiau a gafodd eu mynegi gan Aelodau'r Panel yn y ffurflenni arfarnu hunanasesu y buont yn eu llenwi yn ystod mis Chwefror 2019.

### 2. Rôl y Panel

- 2.1 Mae'r Panel Ymgynghorol yn fforwm anstatudol, a'i brif rôl yw rhoi cefnogaeth a chyngor i'r Ombwdsmon wrth iddo ddarparu arweiniad i'r swyddfa a'i llywodraethu'n dda fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Hefyd, mae'r Panel Ymgynghorol yn cynnig persbectif allanol i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisiau ac arferion.
- 2.2 Mae'r Panel Ymgynghorol yn rhoi cymorth a chyngor penodol i'r Ombwdsmon ynglŷn â'r canlynol:
- gweledigaeth, gwerthoedd a dibenion;
  - cyfeiriad strategol a chynllunio;
  - atebolrwydd i ddinasyddion am y cyllid cyhoeddus a gaiff;
- 2.3 Cyngori'r Ombwdsmon yn unig yw gwaith y Panel Ymgynghorol, ac nid yw'n gwneud penderfyniadau drwy ei hawl ei hun.
- 2.4 Mae'r Panel hefyd yn cynorthwyo'r Ombwdsmon i sefydlu:
- trefniadau llywodraethu, gan gynnwys Cylch Gorchwyl unrhyw is-bwyllgorau;
  - cyfeiriad strategol OGCC, ei nodau, ei amcanion a'i dargedau;
  - polisiau busnes allweddol;
  - polisiau a strategaethau cyflogaeth pwysig

yngyd â chraffu a rhoi sicrwydd mewn perthynas â'r canlynol:

- y Cynllun Strategol Tair Blynedd a'r Cynllun Busnes Blynyddol;
- dyraniad cyllideb lefel uchel;
- cyflwyno'r amcangyfrifon cyllidebol i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.5 Mae hefyd yn monitro ac yn adolygu'r canlynol:

- perfformiad a chyflawni gweithredol;
- perfformiad ariannol;
- effeithiolrwydd polisiâu a strategaethau cyflogaeth;
- amrywiaeth a chyfle cyfartal, yn arbennig yng nghyswllt Deddf Cydraddoldeb 2010;
- strategaethau cyfathrebu allanol a chysylltiadau â rhanddeiliaid;
- iechyd a diogelwch a pharhad busnes.

### 3. Aelodaeth

- 3.1 Mae'r aelodaeth yn cynnwys yr Ombwdsmon a hyd at chwe aelod allanol annibynnol sy'n cynnig sgiliau a phrofiad penodol o'r sectorau gwasanaeth cyhoeddus a gwahanol awdurdodaeth o safbwynt tiriogaethol a sectoraidd. Mae'r aelodau allanol annibynnol yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) hefyd.
- 3.2 Mae'r Cyfarwyddwr Polisi, Cyfraith a Llywodraethu yn gweithredu fel Ysgrifennydd y Panel; gall aelodau eraill o'r Tîm Rheoli fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Panel yn ôl penderfyniad yr Ombwdsmon ond nid ydynt yn aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol OGCC yn ffurfiol.
- 3.3 Un o'r aelodau allanol annibynnol fydd yn cadeirio cyfarfodydd y Panel. Ym mis Mehefin 2018, fe wnaeth yr Ombwdsmon benodi Jonathan Morgan (aelod annibynnol o'r Panel) i fod yn Gadeirydd ar sail argymhelliad y Panel Ymgynghorol.
- 3.4 Ymunodd un aelod annibynnol newydd â'r Panel ym mis Medi 2018 yn lle aelod yr oedd ei gyfnod yn ei swydd wedi dod i ben ar ddiwedd 2017/18.

### 4. Cyfarfodydd

- 4.1 Mae Aelodau'r Panel wedi parhau i ddangos eu hymrwymiad i'r rôl, gyda phob un ohonynt yn cadw at lefel ragorol o bresenoldeb yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Aelod y Panel	Adegau y buont yn bresennol	Cyfanswm Posibl
Jonathan Morgan (Cadeirydd)	4	4
Anne Jones	4	4
Tom Frawley	4	4
Jim Martin	4	4
Trevor Coxon	4	4
Ian Williams (o fis Medi)	3	3

- 4.2 Mae'r Panel yn gosod rhaglen waith flynyddol ar ei gyfer ei hun, ac mae Aelodau'r Panel wedi cael nifer o adroddiadau rheolaidd ymhob cyfarfod, fel monitro cynnydd o gymharu â'r targedau sydd yn y Cynlluniau Strategol a Gweithredol; a'r Adroddiad Monitro Cwynion misol.

- 4.3 Mae Aelodau'r Panel wedi bod yn gwbl gysylltiedig â gwaith OGCC. Ym mis Mehefin 2018, dilynodd aelodau'r Panel hyfforddiant Llywodraethu ac Atebolrwydd; ac ym mis Medi 2018 treuliodd aelodau'r Panel amser gyda phob un o'r Timau yn OGCC er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r rolau amrywiol yn y swyddfa.
- 4.4 Roedd trafodaethau'r Panel ynghylch pwysau'r gwaith achos a oedd yn wynebu OGCC yn ystod 2018/19 wedi helpu'r Ombwdsmon a'i staff yn fawr drwy ddarparu cymorth a chynghor ynglŷn â sut i leddfu pwysau ac ymdrin â'r ôl-groniad o waith yn y swyddfa.
- 4.5 Cafodd Aelodau'r Panel gyfle i ystyried fersiwn ddrafft o'r papur amcangyfrifon ar gyfer 2019/20 cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad ym mis Hydref.
- 4.6 Trafododd y Panel ganlyniad Arolwg Staff OGCC yn fanwl, ac roedden nhw'n falch o weld gwelliannau o ran ymatebion cadarnhaol gan staff ym mhob rhan o'r arolwg.
- 4.7 Roedd arbenigedd aelodau'r Panel hefyd yn werthfawr i OGCC o ran ei helpu i baratoi ar gyfer rhoi Bil newydd OGCC ar waith. Roedd y trafodaethau hyn yn arbennig o ddefnyddiol i'r Ombwdsmon. Cafodd glywed safbwyntiau allanol a gwrthrychol am y materion.
- 4.8 Hefyd, roedd y Panel wedi cyfrannu'n llawn at sesiwn ymgynghori ar Gynllun Corfforaethol newydd OGCC ar gyfer 2019–22. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i farn Seinfyrddau Defnyddwyr Gwasanaethau a Chyrff Cyhoeddus OGCC yn ogystal â rhannu eu safbwyntiau eu hunain ynghylch beth ddylai blaenoriaethau'r OGCC fod wrth fynd ymlaen. Yna aeth aelodau'r Panel ati i adolygu'r Cynllun Corfforaethol drafft cyn iddo fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus; ar ôl yr ymgynghoriad hwnnw, rhoddodd ystyriaeth i'r ymatebion a ddaeth i law cyn i'r Ombwdsmon gwblhau'r Cynllun Corfforaethol newydd.

## **5. Perthynas â Swyddfa'r Ombwdsmon**

- 5.1 O ystyried newidiadau o ran aelodaeth y Panel yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r aelodau'n gymharol newydd i'r Grŵp. Yn sgil y cysondeb diweddar o ran aelodaeth, mae'r aelodau wedi datgan bod hynny wedi arwain at waith effeithiol gan y Panel fel Grŵp. Roedd holl aelodau'r Panel yn ystyried bod y Panel yn gweithio'n dda a gwerthfawrogir safbwyntiau a chyfraniadau gwahanol holl aelodau'r Panel.
- 5.2 Mae Aelodau'r Panel o'r farn eu bod wedi cynnal perthynas effeithiol gyda'r Ombwdsmon a'i Dîm Rheoli. Yn yr un modd, mae Aelodau wedi datgan bod eu perthynas â staff yn swyddfa'r Ombwdsmon yn parhau i fod yn dda iawn. Mae'r staff bob amser yn barod i helpu, yn gefnogol ac yn gwrtais. Roedd holl aelodau'r Panel yn cytuno bod tîm OGCC yn un hawdd i weithio gydag ef, a'u bod wedi trin mewnbwn y Panel â pharch ac yn broffesiynol. Maen nhw'n teimlo bod mwy o ryngweithio â Thîm Rheoli a staff OGCC yn ddefnyddiol iddynt yn eu rolau.

## **6. Ystyriaethau yn y Dyfodol**

- 6.1 Gan fod Bil newydd OGCC yn cyrraedd cyfnod olaf y broses ddeddfwriaethol, mae'n bwysig bod OGCC yn defnyddio'r pwerau newydd yn effeithiol ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth trin cwynion sy'n effeithiol ac o safon. Mae cymorth a chynghor parhaus y Panel yn ystod y cyfnod pwysig hwn yn hanfodol i OGCC.

6.2 Byddwn yn parhau i adolygu hyfforddiant i aelodau'r Panel a chyfleoedd i'r aelodau ymgysylltu â staff yn y swyddfa fel bod yr aelodau'n teimlo eu bod wedi'u briffio'n llawn i barhau i gyflawni eu rolau'n effeithiol ac i sicrhau bod Tîm Rheoli a staff OGCC yn cael gwybod am waith y Panel.

## **7. Asesiad Cyffredinol**

7.1 Mae'r adolygiad hunanasesu, gan gynnwys ffurflenni asesu a chyfarfodydd unigol â'r Cadeirydd, wedi cyflwyno adborth cadarnhaol iawn gan holl Aelodau'r Panel o ran eu rolau a'u hamcanion eu hunain ar y cyd â'r Ombwdsmon a'i staff.

7.2 Teimlai'r Aelodau bod 2018/19 wedi bod yn flwyddyn dda arall i'r Panel Ymgynghorol o ran cefnogi'r Ombwdsmon. Mae holl Aelodau'r Panel wedi teimlo eu bod wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd a'u bod wedi gallu cyfrannu eu gwybodaeth a'u sgiliau i drafodaethau, ac oherwydd yr amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol maent, gyda'i gilydd, yn darparu fforwm gwybodus a phrofiadol iawn. Mae mantais i gael yr un aelodaeth ar y Panel Ymgynghorol a PASR, ac er bod modd i hyn newid yn y dyfodol, mae'r trefniant presennol yn sicrhau cysondeb, a chyd-ddealltwriaeth o waith yr Ombwdsmon.

7.3 Mae aelodau'n parhau i ddarparu lefel gywir o her a chefnogaeth i'r Ombwdsmon ac i'r uwch reolwyr, yn ogystal â chyflwyno syniadau o'u priod gefndiroedd, sydd yn werthfawr iawn. Bydd y flwyddyn nesaf yn cynnwys heriau newydd a chyffrous, fel newid cylch gwaith yr Ombwdsmon ar ôl cyflwyno deddfwriaeth, a gall y panel ychwanegu gwerth sylweddol atynt, yn ogystal â chymryd meddiant o ddatblygiadau pellach yng nghyswllt llywodraethu a datblygiad diwylliannol OGCC.

\*\*\*\*\*